**Rhif: WG35149**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

Dyddiad cyhoeddi: 30 Gorffennaf 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Hydref 2018

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae’r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar Reoliadau drafft sy’n rhagnodi’r “gwrthrychau” a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o’r corff. Caiff y Rheoliadau drafft hyn eu gwneud o dan bwerau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017. |
| **Sut i ymateb** | Mae’n rhaid i bob ymatebydd i’r ymgynghoriad hwn lenwi’r holiadur atodedig, sydd hefyd ar gael fel dogfen y gellir ei lawrlwytho yma:<br><br>https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff<br><br>Dylid cyflwyno ymatebion i:<br><br>E-bost: SpecialProceduresMailbox@gov.wales<br>SpecialProceduresMailbox@llyw.cymru<br><br>Post: Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig<br>Y Gangen Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd<br>Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>4ydd Llawr, y Dwyrain<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.**<br><br>Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017:<br>http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents<br><br>Tudalennau gwe Llywodraeth Cymru – Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Rhan 5 (Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o’r Corff):<br>https://gov.wales/topics/health/nhswales/act/piercing/?skip=1&lang=cy<br><br>Mae’r ddogfen ymgynghori hon hefyd ar gael ar-lein:<br><br>https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Y Gangen Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd<br>Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>Llywodraeth Cymru<br>4ydd Llawr, y Dwyrain<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>E-bost: SpecialProceduresMailbox@gov.wales<br>SpecialProceduresMailbox@llyw.cymru |

## Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr
- annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o’r Corff) 2019

## Cynnwys — Tudalen



| | |
|---|---|
| **Rhagair y Gweinidog** | **1** |
| **1. Crynodeb** | **2** |
| **2. Cyflwyniad a Chefndir yr Ymgynghoriad hwn** | **3** |
| **3. Y Rheoliadau Drafft - Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o’r Corff)** | **4** |
| **4. Asesiadau Effaith** | **5** |
| **5. Hoffem eich holi am y canlynol** | **6** |
| **6. Beth fydd yn digwydd nesaf** | **8** |
| **Atodiad A – Rheoliadau Drafft** | **Dogfen ar wahân** |
| **Atodiad B1 i B4 – Asesiadau Effaith Perthnasol** | **Dogfennau ar wahân** |
| **Atodiad C – Rhestr Ddosbarthu’r Ymgynghoriad** | **10** |
| **Atodiad D – Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad** | **11** |

## Rhagair y Gweinidog

Rwyf yn falch o lansio'r ddogfen ymgynghori hon sy'n nodi manylion Rheoliadau Drafft Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019.

Mae'r Rheoliadau drafft hyn, a gaiff eu gwneud o dan Ran 4, adrannau 94(1)(b) a 94(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf"), yn diffinio "gwrthrychau" a ddefnyddir at ddibenion y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc dan 18 oed yng Nghymru. Fel y mae hi ar hyn o bryd, ceir gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc dan 18 oed yng Nghymru gan ddefnyddio eitemau o emwaith. Bydd cyflwyno'r Rheoliadau newydd yn ehangu ystod y gwaharddiad i gynnwys hefyd "wrthrychau" diffiniedig sydd hefyd yn cael eu defnyddio at ddibenion rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Bydd hyn yn rhoi'r gweithredu'n llawn y pwerau sydd ar gael o dan y Ddeddf i ddiogelu plant a phobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru rhag y niwed posibl i'w hiechyd a allai gael ei achosi drwy roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a chael gwared ar yr amgylchiadau lle bo plant yn cael eu rhoi mewn sefyllfa lle gallent fod yn agored i niwed.

Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio eich barn ar y Rheoliadau drafft. Rydym ni eisiau sicrhau bod y Rheoliadau drafft yn addas at eu diben, a byddwn yn gwerthfawrogi eich barn yn fawr iawn, ac yn eich annog i gyflwyno eich sylwadau. Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gennych chi i'w ddweud ar y mater pwysig hwn. Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 19 Hydref a byddwn ni wedyn yn ystyried y sylwadau cyn penderfynu ar ddull a ffefrir. Byddwn ni'n cyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ddiweddarach yn 2018 neu ddechrau 2019.



Vaughan Gething AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## 1. Crynodeb

1. Prif ddiben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar Reoliadau Drafft Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019 ("y Rheoliadau drafft") a'r effaith rheoleiddiol a ragwelir o'u herwydd. Mae'r Asesiad Effaith Reoleiddiol (RIA) a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r effaith reoleiddiol a ddisgwylir yn sgil y Rheoliadau drafft.

2. Bydd y Rheoliadau drafft yn ei gwneud yn bosibl i'r "gwrthrychau" a ddiffinnir yn y Rheoliadau drafft hynny gael eu cynnwys yn y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a ddarperir yn Rhan 5 o'r Ddeddf, a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2018 ac sy'n gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn neu berson ifanc dan 18 oed yng Nghymru. Mae deddfwriaeth bresennol ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn gwahardd rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc dan 18 oed yng Nghymru gan ddefnyddio eitemau o emwaith, ond bydd cyflwyno'r Rheoliadau drafft yn ehangu cwmpas y gwaharddiad er mwyn i'r "gwrthrychau" a ddiffinnir yn y Rheoliadau drafft gael eu cynnwys yn yr un modd â gemwaith, fel eitemau sydd wedi eu gwahardd rhag cael eu defnyddio ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc dan 18 oed yng Nghymru.

3. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad a darperir ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon. Mae'r ffurflen hon hefyd ar gael ar-lein yma: https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff

## 2. Cyflwyniad a Chefndir yr Ymgynghoriad hwn

1. Cychwynnwyd Rhan 5 o'r Ddeddf ar 1 Chwefror 2018, gan ei gwneud yn drosedd i roi, neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed yng Nghymru.

2. Mae adran 94(1) o'r Ddeddf yn diffinio "tyllu'r corff " fel y broses o wneud trydylliad (gan gynnwys tyllu neu endorri) yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, **neu "wrthrych" o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau**, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn. Diffiniad rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yw tyllu'r corff mewn rhan bersonol, pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol. Rhestrir y deg rhan bersonol o'r corff yn adran 96(2) o'r Ddeddf ac maent yn cynnwys y tafod, y ffolen, y fron a'r organau cenhedlu, ac maent yn berthnasol i bob rhywedd.

3. Roedd cychwyn Rhan 5 yn sicrhau bod defnyddio gemwaith (pa un a yw wedi'i atodi, wedi'i mewnblannu neu wedi'i thynnu o gorff yr unigolyn) i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc dan 18 oed yng Nghymru wedi'i gynnwys at ddibenion y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Serch hynny, er mwyn cyflawni bwriad llawn Llywodraeth Cymru, sef gwneud yn siŵr bod pob unigolyn o dan 18 oed wedi ei ddiogelu'n llwyr rhag pob math o driniaeth sy'n rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, mae angen defnyddio pwerau Rhan 4, adrannau 94(1)(b) a 94(3) o'r Ddeddf a chyflwyno Rheoliadau drafft i ragnodi y "gwrthrychau" hynny a ddefnyddir mewn triniaethau ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Bydd hyn yn sicrhau bod y "gwrthrychau" rhagnodedig hynny wedi eu cynnwys, yn yr un modd â gemwaith, yn y gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff. Mae'r mesur hwn yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc rhag y niwed posibl i'w hiechyd a allai gael ei achosi gan dwll mewn rhan bersonol o'r corff, ac mae'n cael gwared ar amgylchiadau lle y gallai plant a phobl ifanc gael eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn agored i niwed. Bydd cyflwyno'r Rheoliadau drafft hefyd yn helpu i leihau nifer yr achosion o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thyllu'r corff, gan gynnwys heintiau ac anafiadau.

4. Mae'r Rheoliadau drafft, sy'n destun yr ymarfer ymgynghori hwn, yn darparu felly y diffiniad angenrheidiol o'r "gwrthrychau" hynny y ceisir barn y rhanddeiliaid arnynt yn awr.

## 3. Y Rheoliadau Drafft – Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019

### Trosolwg

1. Mae Rhan 4, adran 94 o'r Ddeddf yn darparu pwerau i gyflwyno Rheoliadau sy'n rhagnodi'r "gwrthrychau" a ddefnyddir ar gyfer rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

2. Bwriad y Rheoliadau drafft yn **Atodiad A** yw rhagnodi'r "gwrthrychau" hynny. Gellir gweld rhestr y "gwrthrychau" hyn yn rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau drafft. Crëwyd y rhestr hon ar sail gwaith ymchwil a wnaed gan swyddogion ar arferion presennol rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, a hynny ledled Cymru, sydd wedi cynnwys cysylltiadau agos â swyddogion awdurdodau lleol sy'n brofiadol iawn mewn rheoleiddio ymarferwyr a busnesau tyllu'r corff yn eu hardaloedd. Er bod "gwrthrychau" penodol a ddefnyddir yn niwydiant tyllu'r corff ar hyn o bryd wedi eu rhestru, mae isadran (e) yn rhagnodi 'unrhyw "wrthrych" arall nad yw'n gemwaith'. Mae hyn wedi ei gynnwys er mwyn rhoi ystyriaeth i'r ffaith bod rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn faes sy'n datblygu'n gyflym ac yn newid yn barhaus, gan fod pobl yn parhau i herio'r ffiniau o ran creadigrwydd, tueddiadau newydd a risg. Felly, bwriedir y bydd isadran (e) yn sicrhau amddiffyniad digonol rhag newidiadau mewn arferion rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac yn diogelu rhag bod unrhyw "wrthrych" nad yw wedi'i ragnodi ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol at ddibenion rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person dan 18 yng Nghymru.

4. Hefyd, gellir dod o hyd i'r Rheoliadau drafft ar dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru yma:

   https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff

## 4. Asesiadau Effaith

1. Yn rhan o’r ddogfen ymgynghori hon, rydym ni wedi cyhoeddi Asesiad Effaith Reoleiddiol drafft (gweler **Atodiad B1**) sy’n nodi’r effeithiau y caiff y Rheoliadau drafft hyn ar gyrff rheoleiddio yn ein barn ni. Rydym ni hefyd wedi cyhoeddi’r Asesiadau Effaith gorfodol canlynol yn ymwneud â’r Rheoliadau drafft:

- Asesiad o Effaith ar y Gymraeg (**Atodiad B2**)
- Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (**Atodiad B3**)
- Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant (**Atodiad B4**)

2. Roedd y tri asesiad uchod wedi eu cynnal yn flaenorol ar gyfer holl ddarpariaethau’r Ddeddf, ond maent wedi eu hailystyried a’u diweddaru ar gyfer y Rheoliadau drafft hyn.

3. Mae’r Asesiadau Effaith wedi eu cyhoeddi yn rhan o’r ddogfen ymgynghori hon yn **Atodiadau B1 i B4**.

4. Yn ogystal, cwblhawyd hefyd asesiadau sgrinio cychwynnol wrth ystyried y Rheoliadau drafft. Diben ffurflenni asesiad sgrinio yw pennu pa un a oes angen asesiadau effaith llawn ar gyfer y polisi dan sylw. Mae’r holl asesiadau sgrinio a restrir isod naill ai wedi nodi nad oedd y Rheoliadau drafft yn berthnasol i’r Asesiad Effaith penodol, neu fod yr effaith a nodwyd yn niwtral:

- Asesiad o Effaith ar Fioamrywiaeth a’r Cynefin
- Asesiad o Effaith ar Fusnes
- Asesiad Sgrinio o Effaith ar Newid yn yr Hinsawdd
- Asesiad Sgrinio o Effaith ar yr Amgylchedd
- Asesiad Sgrinio o Effaith ar Iechyd
- Asesiad o Effaith ar Gyfiawnder
- Asesiad Sgrinio o Effaith ar Breifatrwydd
- Asesiad Sgrinio o Effaith ar Brawfesur Gwledig
- Asesiad Sgrinio o Effaith Amgylcheddol Strategol

## 5. Hoffem eich holi am y canlynol

1. Mae'r cwestiynau canlynol yn gofyn am eich barn ar y Rheoliadau drafft, a pha un a allai newidiadau gael eu gwneud i wella eu heglurdeb neu eu cynnwys. Rydym yn eich gwahodd i ymateb ar y ffurflen a ddarperir yng nghefn y ddogfen hon. Gellir llenwi'r ffurflen ar ffurf copi caled a'i hanfon atom drwy'r post, neu gellir ei lawrlwytho o dudalen we yr ymgynghoriad hwn a'i hanfon atom drwy'r e-bost:

https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff

**SYLWER**: Cafodd gofynion Rhan 4 (Triniaethau Arbennig) a Rhan 5 (Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) eu pennu a'u cytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a daethant yn gyfraith ym mis Gorffennaf 2017. Ni chaiff yr ymgynghoriad hwn felly ailystyried y darpariaethau yn y Ddeddf, ond yn hytrach, mae'n manteisio ar y pwerau i wneud rheoliadau sydd ar gael yn y Ddeddf i ddarparu Rheoliadau drafft sy'n diffinio'r "gwrthrychau" a ddefnyddir i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac yn rhoi'r cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft hynny. Noder hefyd, **mae'r Rheoliadau drafft yn ceisio rhagnodi gwrthrychau at ddiben y cyfyngiad ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn unig.**

**Cwestiwn 1: Yn eich barn chi, a ydym ni wedi diffinio'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A)?**

**Cwestiwn 2: A yw'r termau a ddefnyddir yn adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A i ragnodi'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin ac yn hollol ddealladwy o fewn y diwydiant tyllu'r corff a chan swyddogion gorfodi?**

**Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau eang a ddarperir ar gyfer y "gwrthrychau" a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y byddant yn cynnwys "gwrthrychau" newydd/gwahanol yn y dyfodol?**

**Cwestiwn 4: A yw'r ddogfen Asesiad Effaith Reoleiddiol ddrafft yn Atodiad B1 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?**

**Cwestiwn 5: A yw'r dogfennau asesu effaith perthnasol eraill yn Atodiadau B2 i B4 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?**

**Cwestiwn 6: Hoffem gael eich barn chi ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau *drafft* yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg:**

- **Pa effeithiau y gallent eu cael yn eich barn chi?**

- **Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?**

**Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft yn eich barn chi er mwyn:**

- **cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a**

- **pheidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.**

**Cwestiwn 8: Unrhyw sylwadau neu arsylwadau cyffredinol eraill? Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol eraill nad ydym ni wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.**

## 6. Beth fydd yn digwydd nesaf

1. Rydym ni'n croesawu sylwadau ar y ddogfen ymgynghori hon tan 19 Hydref 2018, ac ar ôl y dyddiad hwn, byddwn yn tybio bod yr holl ymatebion wedi dod i law.

2. Yn dilyn yr ystyriaeth hon, rhoddir cyngor ac argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried. Byddant yn cynnwys unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i'r Rheoliadau drafft o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori hwn.

3. Byddwn yn cyhoeddi manylion yr ymatebion a geir ynghyd ag unrhyw adolygiadau a gaiff eu cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet maes o law. Cyhoeddir fersiwn derfynol y Rheoliadau ar ddyddiad dod i rym y Rheoliadau. Nid yw hwn wedi ei bennu eto ond rhagwelir y bydd yn digwydd yn gynnar yn 2019. Bydd y Rheoliadau a gyhoeddir ar gael i'r cyhoedd, ymarferwyr a busnesau triniaethau arbennig a rhanddeiliaid awdurdodau lleol, ar y dyddiad hwnnw.

**Gweler dogfennau ar wahân ar gyfer:**

**Atodiad A -** **Rheoliadau DRAFFT Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff) 2019**

**Atodiadau B1 i B4** - **(B1) Asesiad Effaith Reoleiddiol**
**(B2) Asesiad o Effaith ar y Gymraeg**
**(B3) Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb**
**(B4) Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant**

# Atodiad C – Rhestr Dosbarthu'r Ymgynghoriad

**Sefydliadau Cynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| AGGCC | British Independent Retailers Association |
| Cyngor Gofal Cymru | Forum for Private Business |
| Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Tattoo & Piercing Industry Union |
| WCVA | Sefydliad Safonau Masnach Cymru |
| TUC Cymru | Llywodraethwyr Cymru |
| CBI Cymru | Comisiynydd y Gymraeg |
| The Business Centre | Y Comisiynydd Plant |
| Ffederasiwn Busnesau Bach Prydain | Plant yng Nghymru |
| Ffederasiwn y Busnesau Bach - Cymru | Llais Disgyblion Cymru |
| Consortiwm Manwerthu Cymru | Sefydliad Iechyd Gwledig |

**Llywodraeth/Llywodraeth Leol**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru | Penaethiaid Safonau Masnach Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru | Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru |
| Local Government Regulation | Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru |

**Iechyd**

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Meddygol a Chyfarwyddwyr Nyrsio: | Coleg Brenhinol y Nyrsys |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd y Byrddau Iechyd Lleol |
| Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Coleg Brenhinol y Ffisigwyr |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Y Cynghorau Iechyd Cymuned |
| Bwrdd Iechyd Cwm Taf | |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | |

**Iechyd y Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | CIEH Wales |
| Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd | Swyddogion Arweiniol Iechyd yr Amgylchedd leads |
| Cyfadran Iechyd y Cyhoedd | Canolfannau Cyfun Cymru ar gyfer Iechyd y Cyhoedd |

Pobl sydd â diddordeb mewn tatŵio a thyllu ac ymarferwyr a ymatebodd i ymgynghoriadau blaenorol.

## Atodiad D – Ffurflen Ymateb i’r Ymgynghoriad

# Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o’r Corff) 2019

A wnewch ddychwelyd y ffurflen hon i gyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **19 Hydref 2018** fan bellaf. Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion neu ymholiadau yw:

SpecialProceduresMailbox@gov.wales

Dylech anfon ymatebion drwy’r post i:

Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig
Y Gangen Polisi a Deddfwriaeth Diogelu Iechyd
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr, y Dwyrain
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Gellir lawrlwytho’r ffurflen hon o dudalen we ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yma:

https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-drafft-i-ddiffinio-gwrthrychau-ddefnyddir-wrth-roi-twll-mewn-rhan-bersonol-or-corff

| | |
|---|---|
| **Eich enw:** | |
| **Sefydliad (os yw’n berthnasol):** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Eich cyfeiriad:** | |

Mae'n bosibl y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, naill ai ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech chi i ni gadw eich ymateb yn ddienw, ticiwch yma: ☐

| |
|---|
| **Cwestiwn 1: Yn eich barn chi, a ydym ni wedi diffinio'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (gweler adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft of yn Atodiad A)?** <br> **Ydych…….. Nac ydych…….** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 2: A yw'r termau a ddefnyddir yn adran 2(2) o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A i ragnodi'r mathau a'r ystod o "wrthrychau" a ddefnyddir mewn triniaethau rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff yn rhai a ddefnyddir yn gyffredin ac yn hollol ddealladwy o fewn y diwydiant tyllu'r corff a chan swyddogion gorfodi?** <br> **Ydynt…….. Nac ydynt…….** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau eang a ddarperir ar gyfer y "gwrthrychau" a nodwyd yn ddigonol i sicrhau y byddant yn cynnwys "gwrthrychau" newydd/gwahanol yn y dyfodol?** <br> **Ydynt…….. Nac ydynt…….** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 4: A yw'r ddogfen Asesiad Effaith Reoleiddiol ddrafft yn Atodiad B1 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?** <br> **Ydy…….. Nac ydy…….** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 5: A yw'r dogfennau asesu effaith perthnasol eraill yn Atodiadau B2 i B4 yn adlewyrchu'n gywir yr effaith ar y cynulleidfaoedd a nodwyd yn ogystal â'r buddion ar eu cyfer?**<br><br>**Ydynt…….. Nac ydynt…….** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 6: Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn enwedig ar y cyfleodd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg:**<br><br>**Pa effeithiau y gallent eu cael yn eich barn chi?**<br><br>**Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 7: Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y Rheoliadau drafft yn eich barn chi er mwyn:**<br><br>• **cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a**<br><br>• **pheidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.** |
| **Sylwadau:** |

| |
|---|
| **Cwestiwn 8: Unrhyw sylwadau neu arsylwadau cyffredinol eraill?**<br><br>**Rydym ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion perthnasol eraill nad ydym wedi cyfeirio atynt, mae croeso i chi eu nodi isod.** |
| **Sylwadau:** |